

Dadorchuddio Patagonia: Hwyl fawr Patagonia gan Rhys Llewelyn

Y Cymro, Gorffennaf 21, 2001

“Ffarwél Archentina” – fel Nel Fach y Bwcs druan, mae’n amser i mi ffarwelio â’r Ariannin. Wrth edrych yn ôl dros y flwyddyn diwethaf, daw sawl peth i’r cof...

Cyrraedd Trelew dydd Gwener, Mehefin yr 2^{il} y llynedd a chael fy nghroesawu yn y maes awyr gan Dewi Mefyn Jones a’i wraig Eileen Jones, Mario Jones, Vali James de Irianni (Buenos Aires a chwaer Eileen), Nans a Menna fy nghyd-athrawon. Roedd yn brofiad braf er yn od cyrraedd gwlad mor bell, a chael fy nghyfarch yn Gymraeg. Cysgais y noson honno yn nhŷ Elda Jones a Juan Ocampo gan nad oedd yr apartment yn barod, a chefais groeso ganddynt heb ei ail. Mae fy niolch i Gymdeithas Dewi Sant am fy lletya.

Ar y noson ganlynol, roedd “social” i’n croesawu i’r dyffryn, wedyn cafwyd noson lawen nos Sul ar ôl y gwasanaeth yng Nghapel Bethel, Gaiman, ac yna roedd y dosbarthiadau yn cychwyn yn syth ddydd Llun. Roedd popeth yn digwydd yn sydyn iawn, a dyna fu fy hanes i byth oddi ar hynny heb fawr o amser i’w wastraffu. Nans fu gyda dosbarth siaradwyr Cymraeg Trelew o’r cychwyn, felly cymerodd beth amser i mi i ddod i adnabod y bobl hyn yn iawn. Yn y Wladfa, mae trefniadaeth pethau yn wahanol iawn i ni yng Nghymru. Rydan ni wedi arfer hysbysebu ymhell o flaen llaw ond yma mae pethau’n digwydd ar y funud olaf, ac felly roeddwn yn dibynnu ar bobl i’r hysbysu am ddigwyddiadau’r dyffryn. A choeliwch chi fi, mae bywydau pawb yn fwrllwm di-derfyn, rhwng gwaith a mynd o un gweithgaredd cymdeithasol i’r llall.

Credaf, mai’r sioc fwyaf oedd deall mai Sbaeneg oedd cyfrwng cyfathrebu y rhai oedd yn gallu siarad Cymraeg. Mae’n debyg fy mod i wedi cael darlun ramantus ar y cyfryngau Cymraeg am deulu o amgylch bwrdd yn siarad Cymraeg yn ddi-dor. Deuthum yn ymwybodol nad oedd hyn mo’r gyffredin â hynny. Wedyn, des yn ymwybodol bod yma ddwy genhedlaeth goll fwy neu lai nad oeddynt wedi eu magu’n Gymraeg. Er enghraifft yn Nhrelew, bu cynnydd enfawr yn y boblogaeth yn y 70au, ac o ganlyniad, roedd popeth yn troi i’r Sbaeneg. Er hynny, mae’n syndod deall bod ambell i Archentwr wedi ei fagu trwy gyfrwng yr iaith Gymraeg, ac mae gen i ddisgybl wyth oed sy’n siarad Cymraeg gyda’i fam ar yr aelwyd gartref – mewn dinas o bron i gan mil. Deuthum yn ymwybodol bod sefyllfa’r iaith yma yn gwbl wahanol i Gymru, ac ail-iaith yw hi i’r rhai sy’n ei meistrola a chaiff ei defnyddio fynychaf gyda phobl o Gymru.

Mae’r ymwybyddiaeth Gymreig a dylanwad y Cymry yn gryf iawn yma. Does ond yn rhaid i chi fynd i’r Gaiman er enghraifft i weld y clwstwr o dai te, neu ymlwybro ar hyd strydoedd Madryn, Rawson a Threlew i weld yr enwau Cymraeg ar y strydoedd. Enwau pobl ydy nifer o’r rhain. A choeliwch neu beidio - mae lôn gyferbyn â gorsaf fysiau newydd Madryn, newydd ei henwi yn “Ciudad de Nefyn” (tref Nefyn) – a minnau’n frodor o Nefyn! Mae hyn yn dilyn yr uniad a wnaed yn 1998 ar ôl i ddirprwyaeth oddi yno fynd i Nefyn i efeillio’r ddau le. Mae yna gwmni bysiau wedyn

sy'n dwyn yr enw "28 de Julio", sef 28 Gorffennaf – y dyddiad pryd wnaeth y Mimosa lanio. Caiff plant Ysgol Gerdd a Choleg Camwy, y Gaiman a phobl ifainc Ysgol Sul Tabernacl, Trelew eu hyfforddi i ddawnsio gwerin. Er mai'r Sbaeneg yw iaith yr Ysgol Sul, mae'r bobl ifainc hyn yn ymwybodol iawn o'u tras Gymreig ac maent yn cystadlu mewn eisteddfodau megis Eisteddfod Fach ac Eisteddfod y Wladfa yn Nhrelew.

Rhan o'n dyletswyddau ni fel athrawon oedd ceisio cynyddu gweithgareddau Cymraeg yn y dyffryn, a cheisio meithrin y brodorion yr un pryd i gymryd yr awenau. Cafodd rhai gyfle i gyflwyno'n Gymraeg mewn nosweithiau llawen; cafodd eraill gyfle i gyd-drefnu taith i argae y llynedd neu weithgareddau Sadwrn siarad "Miri Madryn" ym mis Ebrill. Bu eraill wedyn yn adrodd ac yn actio mewn eisteddfodau a nosweithiau llawen neu'n sgwennu'n Gymraeg. Eleni, bu dwy ddysgwraig yn trefnu Twmpath Dawns i'r dosbarthiadau Cymraeg ac i aelodau Côr Cymraeg Trelew. Y gri gyffredinol gaiff ei fynegi yma yw diffyg arweinyddion i gymryd yr awenau. Fel sawl cymdeithas wledig yng Nghymru, caiff pobl ifainc eu sugno i'r dinasoedd mawr, ac mae'r un peth yn wir fan hyn. Mae llawer o'r rhai sydd wedi dysgu Cymraeg yn rhugl, wedi mynd i astudio i Fuenos Aires neu wedi cilio o'r byd Cymraeg, felly gobeithio y byddant rhyw ddydd yn rhoi rhywbeth yn ôl i'r gymdeithas Archentaidd-Gymreig.



Trefnwyd nosweithiau sgwrsio "o-dŷ-i-dŷ" pob pythefnos; bore "paned a sgwrs" wedyn i siaradwyr rhugl a dysgwyr ar fore Sadwrn; nosweithiau fideos – gan obeithio y bydd yr Archentwyr maes o law yn trefnu mwy o weithgareddau Cymraeg eu hunain. Trefnwyd hefyd i gael y Cwrs Pellach wedi ei gyfieithu i'r Sbaeneg fel bod dilyniant a pharhad i'r cyrsiau, ac argraffwyd 150 o grysau "T" Cymraeg amrywiol. Sefydlwyd Ysgol Ôl-Feithrin yn Rawson a Threlew ynghyd â dau ddosbarth plant ym Madryn eleni. Bûm hefyd yn cysylltu'n gyson gyda'r wasg er mwyn hysbysu'r cyhoedd am weithgareddau'r Ysgol e.e. trwy gyfweiliad radio ym Madryn; a thrwy gysylltu'n wythnosol gyda'r cwmnïau papurau newydd a'r gorsafoddd radio yn Nhrelew. Bydd y cyfrifiadur-cludadwy yn aros yn Nhrelew yng ngofal yr athrawes newydd o Gymru a Phwyllgor yr Ysgol Gymraeg, a bydd croeso i wirfoddolwyr fydd yn dod yma i'w ddefnyddio er budd Ysgol Gymraeg y Wladfa.

Bu llawer o bobl o'r Hen Wlad yma ar wyliau gydol y flwyddyn diwethaf yn ogystal â'n Cymry enwog fel Dafydd Du, Dafydd Iwan a Rhodri Morgan. Mae gwir angen i fwy o bobl i ddod yma er mwyn helpu'r achos Cymraeg. Os ydy'r cyfryngau'n gwrandao – da chi, dewch â'n cantorion a'n hactorion ni drosodd. Mae hyn yn beth hynod werthfawr ac iach iawn achos mae'n annog ac yn symbylu'r Archentwyr i ymarfer eu Cymraeg. Dyma'r unig iaith sy'n uno'r ddwy wlad oni bai eich bod yn rhugl eich Sbaeneg. Beth am i rywun yng Nghymru sefydlu cylchlythyr rheolaidd i ddysgwyr y ddwy wlad yn iaith gyfarwydd Cwrs Wlpan y Gogledd?

Mae rhai pethau yn aros yn y cof: yfed mate yn blygeiniol, sef y diod deiliog gaiff ei yfed mewn mate (powlen fach bren neu fetel) a'i yfed trwy bombilla sy'n welltyn metel. Mynd am gêm o pŵl wedyn gyda rhai o bobl ifainc Trelew, cael paned neu ymweld â'r gampfa – i gyd yn Gymraeg! Bwyta cig. Wnes i rioed fwyta cymaint o gig yn fy mywyd! Bellach, mae'r gair "asado" yn bwysig iawn! "Chwerthin" a "chael hwyl" wrth sgwrsio a chymysgu gyda phobl o bob oed yn y dyffryn ac ar lethrau'r Andes: braf oedd blasu'r hiwmor iach a'r croeso gwresog. Blasu cerddoriaeth de America a'r dawnsio gosgeiddig mewn mannau cyhoeddus; yr Eisteddfodau di-ri a'r gwasanaethau Cymraeg yng nghapeli'r dyffryn. Cael fy nghyflwyno i'r Sbaeneg sy'n iaith ffonetig fel y Gymraeg ac yn ddefnyddiol iawn ar hyd a lled y byd (mae angen ei phoblogeiddio hi yn holl ysgolion Cymru). Cael cyfle wedyn i ymweld â'r llefydd a sefydlwyd gan y Cymry cyntaf. Dipyn o brofiad oedd gweld yr ogofau ym Madryn am y tro cyntaf, ac ymweld â Cheg y Ffos (lle mae'r ffosydd i ddyfrio'r dyffryn yn cychwyn) yng nghwmni un o'r Archentwyr ifainc sydd wedi dysgu'r Gymraeg. Blasu bywyd gwyllt anhygoel Patagonia – y pengwiniad, y gwanacos a'r morloi. A threulio bore ar long bleser ym mae "Golfo Nuevo" Porth Madryn yn gwyllo morfilod enfawr yn nofio oddi tanom. Profiad arbennig i mi oedd darllen "Nel Fach y Bwcs" mewn gwaed cynnes achos roedd yr enwau a'r llefydd mor gyfarwydd i mi. Braf hefyd oedd bod yn rhan o wersyll Cymraeg a drefnwyd gan rai o athrawon Coleg Camwy ym Mryn Gwyn yn ystod mis Rhagfyr y llynedd. Bydd gen i golled hefyd am fara cartref Menna a jam a tshydni Nans!



Byddaf yn gorffen gweithio yma ddiwedd Gorffennaf. Bydd chwithdod mawr am y ffordd o fyw yma, ac yn sicr, fydd fy mywyd i fyth yr un peth eto. Bellach, rwyf wedi creu cysylltiadau newydd gyda phobl o bob oed yma yn Chubut, ac yn ogystal ym Muenos Aires. Bûm yma ar adeg anodd iawn yn hanes economaidd y wlad - lle roedd pawb oedd yn ddigon lwcus i gael swydd yn gorfod rhoi blaenoriaeth iddi - ac roedd hyn yn effeithio ar ein gweithgarwch. A phrofiad newydd i mi fu gweithio dramor heb fisa achos bu'n rhaid croesi'r ffin pob tri mis i stampio'r pasport. Dyw'r Ariannin ddim yn wlad rhad iawn i fyw ynddi, ac mae'r tlodi'n rhemp a di-weithdra a thor-cyfraith yn cynyddu'n ddyddiol.

Does dim dwywaith, rwyf wedi mwynhau fy ngwaith amrywiol a di-stop yn Nyffryn Camwy ers mis Mehefin y llynedd. Roedd yn bleser llwyr addysgu'r Gymraeg fel ail-iaith yn "haul ac awyr las" y Wladfa, ac rwyf wedi cael profiadau oes. Hwyl fawr o gynffon y byd. Chau, Rhys